| | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **PWYLLGOR IAITH** |
| **DYDDIAD:** | **HYDREF 11 2012** |
| **TEITL:** | **YMATEB COMISIYNYDD Y GYMRAEG I ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL CYNGOR GWYNEDD 2011-12** |
| **AWDUR:** | **SWYDDOG CYDRADDOLDEB AC IAITH** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **CYFLWYNO'R YMATEB A'N SYLWADAU I'R PWYLLGOR** |

## 1. ADRODDIAD MONITRO IAITH

1.1. Ymhellach i'n Hadroddiad Monitro Iaith flynyddol, a gyflwynwyd i'r Is-Bwyllgor Iaith ym mis Mehefin, atodir sylwadau Comisiynydd y Gymraeg ar yr adroddiad.

1.2. Mae'r drefn bellach wedi newid ychydig gyda sefydlu rôl y Comisiynydd, a noder bod yna gais ffurfiol am fwy o wybodaeth am rai agweddau o'r Adroddiad..

1.3. Roedd gofyn i ni ymateb i'r cais yma am wybodaeth o fewn 20 diwrnod gwaith. Anfonwyd sylwadau'r Comisiynydd ar 02/08/2012 ac anfonwyd ymateb i bob un o'r gofynion erbyn 30/08/12.

## 2. YMATEB I SYLWADAU COMISIYNYDD Y GYMRAEG

2.1. Atodir yn ogystal â sylwadau'r Comisiynydd, ymateb y Cyngor i'r cais am ragor o wybodaeth ar agweddau o'n Hadroddiad Monitro Blynyddol. Gellir crynhoi'r meysydd dan sylw fel a ganlyn:

- Diweddariad ar adolygu a safoni enwau lleoedd
- Cynllun Gweithredu ac Amserlen y Strategaeth Sgiliau Ieithyddol
- Nifer o staff sydd wedi eu penodi sydd angen ac yn derbyn hyfforddiant iaith
- Nifer a chanrannau staff sy'n gallu siarad Cymraeg
- Gwybodaeth am ein trefniadau asesu effaith cydraddoldeb ac iaith
- Gwybodaeth am ein cytundeb gyda'r Bwrdd Iechyd i ddarparu Gwasanaethau Arbenigol Plant
- Ein darpariaeth hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith
- Ein trefniadau dros-dro ar gyfer cofnodi sgiliau ieithyddol staff (tan i system integredig cyflogau ac adnoddau dynol gael ei sefydlu).

## 3. ARGYMHELLION

3.1. Derbyn ymateb Comisiynydd y Gymraeg a'n hymateb i'r cais am wybodaeth.